# Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
# Crynodeb tudalen 2021/22

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

**Cymuned**

**Cyfathrebu**

**Hyder**

Cafodd tri maes blaenoriaeth newydd eu cyflwyno gan y Prif Swyddog Tân newydd yn ystod 2021. Mae'r meysydd blaenoriaeth hyn yn rhoi pwyslais cryfach ar ymwneud â'r gymuned, sydd efallai, ynghyd â llacio cyfyngiadau Covid-19, yn esbonio'r cynnydd yn ein presenoldeb mewn digwyddiadau brys o bob math dros y flwyddyn.

## Nifer y Galwadau a'r Digwyddiadau Brys (o gymharu â'r llynedd):


**Galwadau a Atebwyd**
12,470
↑ 16%

**Digwyddiadau Tân**
1,879
↑ 6%

**Digwyddiadau Brys Heb Dân**
958
↑ 56%

**Galwadau Diangen**
2,517
↑ 9%

## Y Gweithlu a'r Fflyd ar 31 Mawrth 2022:




**3** Gorsaf Dân 24 Awr gyda Chriw Ar Alwad

**5** Gorsaf Dân Criw Dydd gyda Chriw Ar Alwad

**36** Gorsaf Dân Ar Alwad

**54** Injan Dân

**3** Peiriant ag Ysgol ac Esgynlawr


**30** Math arall o Offer Gweithredol gan gynnwys Cludwyr Ewyn, Cerbydau Tanau Gwyllt a Chychod

Mae gan **82%** o'n staff rywfaint o sgiliau Cymraeg

gyda **36%** yn siaradwyr Cymraeg rhugl

## Cyllid ac Amcanion Corfforaethol:


Mae cynllun corfforaethol tymor hir 2021/24 yn cynnwys 7 amcan lefel uchel, pob un â chamau gweithredu manwl ar gyfer sut i'w gyflawni. Cafodd cynnydd yn y gyllideb ei gymeradwyo gan yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2021. Mae pob ardal Awdurdod Lleol yn talu cyfraniad ar sail poblogaeth eu hardal. Mae'r siart yn dangos y cyfraniadau.




## Amddiffyn a Diogelu'r Gymuned:

**Gwiriadau Diogel ac Iach a wnaed**
**14,062**
Ystyriwyd **6,039** o'r rhain yn rhai blaenoriaeth uchel.

**Hyrwyddo Ymgyrchoedd Diogelwch Tân Cenedlaethol a Lleol drwy gydol y flwyddyn.**




**8,279**
**o blant a phobl ifanc blynyddoedd 1-11 oed wedi cael sgwrs am ddiogelwch tân.**

**Gall y Cyfryngau Cymdeithasol gyfleu negeseuon diogelwch i gynulleidfa fawr yn gyflym.**

Mae gennym:
- Facebook: 25k
- Instagram: 18.8k

## Cydweithio a Phartneriaethau:

**Mae'r Gwasanaeth yn cydweithio â gwasanaethau brys, asiantaethau, a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys aelodau pob Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru i gynorthwyo â phryderon am ddiogelwch tân a hyrwyddo negeseuon diogelwch tân.**

**Gan weithio'n agos â Chyfoeth Naturiol Cymru llwyddwyd i sicrhau'r defnydd o hofrennydd i helpu i ddiffodd tanau mawr ar laswelltiroedd.**

**Cydweithiodd y Gwasanaeth â'r Groes Goch Brydeinig sy'n rhoi cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i bobl sydd wedi bod mewn digwyddiad brys.**

**Mae ein criwiau'n cydweithio â Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i'w helpu i gael mynediad i eiddo lle mae angen gofal meddygol ar frys.**

**Mae ein criwiau'n parhau i gynorthwyo'r Heddlu â'r cynllun 'Ar Goll o'r Cartref', sy'n chwilio am bobl agored i niwed sydd ar goll.**

**Gwnaed gwaith ar y cyd ardderchog i osod 470 uned Gwarchod Stôf ar draws adeiladau preswyl myfyrwyr, mewn ymgais i leihau nifer y tanau neu'r galwadau diangen sy'n digwydd yn sgil coginio yr ydyn ni'n eu mynychu bob blwyddyn.**

**Cynhaliwyd digwyddiad hyfforddi yn RAF y Fali i helpu i ddeall yr heriau sy'n ein hwynebu wrth ymdrin â Deunyddiau Peryglus.**

*ATAL AMDDIFFYN YMATEB*
*PREVENTING PROTECTING RESPONDING*

www.tangogleddcymru.llyw.cymru
www.northwalesfire.gov.wales